**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 29 Mai 2002 |
| Amser: | 2:00 pm tan 4:45 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Presenoldeb:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth:***

| | |
|---|---|
| Tom Middlehurst, Cadeirydd | Alun a Dyfrdwy |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| (dirprwy ar ran Richard Edwards) | |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Ann Jones – hefyd yn aelod o HSS | Dyffryn Clwyd |
| (dirprwy ar ran Karen Sinclair) | |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (eitem 3)***

| | |
|---|---|
| Geraint Davies | Y Rhondda |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Gr^wp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Bob Macey (eitemau 2 a 4) | Pennaeth yr Is-Adran Amddiffyn yr Amgylchedd |
| Kay Powell (eitem 3) | Pennaeth yr Is-Adran Cynllunio |
| Cath Ranson (eitem 3) | Is-Adran Cynllunio |
| Chris Burdett (eitem 3) | Pennaeth yr Is-Adran Plant a Theuluoedd |
| David Worthington (eitem 3) | Dirprwy Brif Ymgynghorydd Iechyd yr Amgylchedd |
| Phil Bishop (eitem 4) | Is-Adran Amddiffyn yr Amgylchedd |
| June Milligan (eitem 5) | Pennaeth Is-Adran Cefn Gwlad |
| Neil Hemington (eitem 5) | Uned Cynllun Gofodol Cymru |
| Richard Spear (eitem 5) | Uned Cynllun Gofodol Cymru |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol**

0. 1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y swyddogion a'r cyhoedd i'r cyfarfod a hysbysu' r Pwyllgor fel a ganlyn:

- Pwyllgor Penderfyniad Cynllunio 2002-4 – cyfarfu'r Pwyllgor ar 23 Mai, diolchodd y Cadeirydd i Val Lloyd a Janet Davies am fod ar gael;
- Rheoliadau newydd a gynigid dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 – dosbarthwyd canlyniad yr ymgynghori cyhoeddus ar y rheoliadau dros dro a therfynol ar gyfer mapiau. Dylid anfon unrhyw sylwadau at yr Ysgrifenyddiaeth erbyn 30 Mai;

- Rhagolwg ar is-ddeddfwriaeth – dosbarthwyd rhagor o wybodaeth am elfennau penodol o'r ddeddfwriaeth a gynigid ym mhortffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Petai'r Aelodau'n dymuno i'r Pwyllgor ystyried unrhyw rai o'r meysydd hyn, fe'u gwahoddid i roi gwybod i'r Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyadau a datgan buddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Edwards, yr oedd Rosemary Butler yn ddirprwy ar ei ran, a chan Karen Sinclair, yr oedd Ann Jones yn ddirprwy ar ei rhan.

1.2 Datganodd Val Lloyd fuddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Datganodd Brian Hancock iddo weithio fel ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch ac Amgylcheddol cyn ei ethol yn aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Eitem 2: Ymchwiliad Nantygwyddon: adolygu'r broses** - EPT-10-02 (p 1)

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor gynnig ei sylwadau ar y gwersi a ddysgwyd ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol, fel y'u nodwyd yn y papur, gyda golwg ar: y sefydliad a phwerau ymchwilio; cytundeb ar gwmpas yr ymchwiliad; cyfansoddiad y timau archwilio; cefnogaeth ar gyfer yr ymchwiliad; cefnogaeth i bobl leyg; casglu tystiolaeth; canllawiau ar gyfer ymchwilwyr a chyfranogwyr; cynnig sylwadau ar adroddiadau'r ymchwilwyr; a dulliau o fonitro rhoi'r argymhellion ar waith.

2.2 Gofynnwyd iddo egluro bod y sylwadau ar y broses a briodolwyd i "Gyfeillion y Ddaear" wedi'u cyflwyno gan "Rwydwaith CyDd Cymru" ac nad ymateb swyddogol Cyfeillion y Ddaear Cymru oedd y sylwadau hyn. Ers i'r papur gael ei ddosbarthu, derbyniwyd sylwadau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn awgrymu y dylid, yn y dyfodol, ystyried effaith unrhyw lygryddion ar y gadwyn fwyd.

3. Roedd yr aelodau o'r farn fod yr ymchwiliad wedi bod yn llwyddiant a'i fod yn cynnig model ar gyfer ymchwiliadau gan bwyllgorau pwnc yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Pwyllgor y meysydd ymarfer gorau a awgrymwyd yn y papur a fyddai'n sail i ddatganiad i Banel o Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc ar yr ymarfer gorau a awgrymid ar gyfer unrhyw ymchwiliadau gan bwyllgorau pwnc yn y dyfodol, ar yr amod bod y pwyntiau isod yn cael eu hychwanegu. Anfonid copi hefyd at bawb a oedd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad.

- Tîm ymchwilio – dymunol cael cymorth i brofi tystiolaeth tystion arbenigol;

- Adroddiadau ymchwilwyr – ystyried bod angen asesu effaith yr argymhellion;

- Rhaglen waith – adran newydd i roi sylw i'r ffaith fod angen i bwyllgorau ystyried effaith ymchwiliad ar eu rhaglenni gwaith.

2.4 Ar 17 Gorffennaf, byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad gan y Gweinidog yn amlinellu'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor a gadarnhawyd gan y cyfarfod llawn ym mis Chwefror.

**Eitem 3: Iechyd a'r Drefn Cynllunio**- EPT-10-02 (p 2)

1. Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor ar waith a oedd ar y gweill ar y cyd â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i oblygiadau datblygiadau arfaethedig yn ystod y broses gynllunio. Byddai rhoi unrhyw weithdrefnau newydd ar waith yn fater i awdurdodau cynllunio lleol.

3.2 Cafwyd datganiad o fuddiant gan Geraint Davies, a oedd yn bresennol yn rhinwedd y ffaith ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, am ei fod yn Fferyllydd ac yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

3.3 Gofynnodd yr aelodau a fyddai modd rhoi sylw i'r meysydd canlynol fel rhan o'r gwaith parhaus:

- Gwybodaeth – roedd angen gwybodaeth wyddonol gadarn, gan gynnwys gwybodaeth feddygol yn sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu goblygiadau datblygiadau arfaethedig ar gyfer iechyd y cyhoedd, ac iddi gael ei chynhyrchu'n annibynnol oddi ar yr awdurdod cynllunio lleol. Gallai Asesiadau Effaith Iechyd, yn ogystal â phroffiliau iechyd cymunedau sy'n byw yng nghyffiniau datblygiadau arfaethedig fod yn rhan allweddol o'r asesiad hwn;

- Canllawiau – roedd angen sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn dilyn y cyngor diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar asesu goblygiadau datblygiadau ar gyfer iechyd y cyhoedd, cyn cyhoeddi canllawiau pellach ar ôl cwblhau'r gwaith ymchwil cyfredol;

- Atebolrwydd – pwysigrwydd bod yn agored wrth wneud penderfyniadau a bod angen sicrhau bod penderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud â defnydd tir yn cael eu gwneud ar seiliau cadarn.

3.3 Byddai swyddogion yn cyflwyno cynigion dros dro i'r Cabinet ym mis Rhagfyr. Rhagwelid y

byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch sut i fwrw ymlaen â hyn yn y Flwyddyn Newydd.

**Eitem 4: Canllawiau statudol drafft ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** - EPT-10-02 (p 3)

1. Ceisiodd y Gweinidog farn y pwyllgor ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd gyda golwg ar ei hamcanion a'i chyfraniad at ddatblygu cynaliadwy. Bwriedid i'r rhain fod yn ganllawiau strategol, gan gytuno ar amcanion manwl fel rhan o broses cynllunio'r gyllideb.

4.2 Awgrymodd yr aelodau y dylid ystyried y materion canlynol:

- Atebolrwydd – roedd angen i'r Asiantaeth fod yn atebol i'r cyhoedd, yn ogystal ag i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chynnal hyder y cyhoedd yn ei waith, yn enwedig ym maes rheoleiddio;

- Datblygu cynaliadwy – canllawiau i'r Asiantaeth ar sicrhau cydbwysedd yn y gwrthdaro rhwng cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol;

- Atal llifogydd – cefnogi modelu daroganol wrth gynllunio ar gyfer atal llifogydd er mwyn ystyried effeithiau newid yr hinsawdd ar ddata hinsawdd hanesyddol;

- Gwastraff – bod angen i'r Asiantaeth gefnogi'r sawl sy'n hyrwyddo marchnadoedd ar gyfer deunyddiau a ailddefnyddir fel rhan o'u gwaith i gefnogi Strategaeth Gwastraff Cymru;

- Cyfarwyddebau'r UE – ystyried cyfrifoldeb yr Asiantaeth dros roi Cyfarwyddebau'r UE ar waith, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud ag amcanion bioamrywiaeth, ansawdd aer a gwastraff.

4.3 Byddai'r canllawiau drafft yn cael eu diwygio yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor a'r ymatebion a geid wrth ymgynghori â'r cyhoedd, a disgwylid iddynt gael eu cyhoeddi erbyn yr Hydref.

**Eitem 5: Cynllun Gofodol Cymru** - EPT-10-02 (t 4)

5.1 Soniodd y Gweinidog wrth y pwyllgor am y cynnydd a wnaed gyda pharatoi Cynllun gofodol Cymru. Statws canllawiau cynllunio cenedlaethol fyddai i'r Cynllun ond awgrymodd y Gweinidog y dylid ei gwneud hi'n ddyletswydd statudol ar i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi cynllun gofodol. Yna, cafwyd cyflwyniad gweledol i ddangos sut y gallai'r cynllun gofodol

weithio (Gweler Atodiad 1).

5.2 Cymeradwyodd yr aelodau'r cyflwyniad fel ffordd ragorol o esbonio cysyniad cynllunio gofodol. Byddai copïau lliw o'r mapiau a ddefnyddid yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor.

5.3 Canolbwyntiwyd y drafodaeth ar y meysydd a ganlyn:

- Pwrpas – swyddogaeth y Cynllun Gofodol fel fframwaith er mwyn deall effaith datblygu (heb iddo fod yn gynllun datblygu gorchmynnol), gan sicrhau cydbwysedd rhwng y dull o'r gwaelod i'r brig ac o'r brig i lawr a chan gytuno ar feini prawf ar gyfer asesu cynaliadwyedd datblygiad;

- Ffiniau – bod angen adlewyrchu'r ddarpariaeth gwasanaeth traws-ffiniol yng Nghymru a Lloegr, o bosibl drwy fapio ar hyd llinellau cynllun gofodol yr Iseldiroedd neu drwy ddysgu o'r model Gwyddelig ar gyfer dewis lleoliad ardaloedd gwasanaeth allweddol;

- Mynediad at ddata – bod angen rhannu gwybodaeth er mwyn creu darlun cynhwysfawr, ac awgrymiadau ar gyfer setiau ychwanegol o ddata er mwyn asesu effaith datblygu ar yr hinsawdd, yr amgylchedd, iechyd y cyhoedd a'r iaith Gymraeg. Roedd aelodau'n awyddus bod y data sy'n gefn i'r Cynllun Gofodol ar gael i Aelodau'r cynulliad, efallai ar ffurf CD-ROM neu System Wybodaeth Ddaearyddol.

5.4 Cyflwynid adroddiad arall i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau'r gwaith ymchwil a fyddai'n darparu sylfaen o dystiolaeth yn sail ar gyfer y Cynllun gofodol. Byddai drafft terfynol Cynllun Gofodol Cymru yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Llawn maes o law.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfod 15 Mai 2002** - EPT-09-02 (min)

6.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai ar yr amod bod y canlynol yn cael ei ychwanegu at baragraff 3.2 pwynt bwled 3:

- Cyllid – roedd angen cynyddu'r cyllid ar gyfer cynnal llwybrau beicio a cherdded a hefyd ar gyfer hyrwyddo manteision iechyd cerdded a beicio, <u>a dylid tynnu sylw at y grantiau sydd ar gael er mwyn hyrwyddo beicio dan wahanol fesurau rhaglen bresennol Cronfeydd Strwythurol Ewrop.</u>

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7.1 Cynhelid cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00pm dydd Mercher 19 Mehefin 2002 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002**